# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 10fed o Fedi 2019 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:**
Cynghorwyr Gerallt Davies (Cadeirydd), Ruby Williams, Wyn Jones, Wyn Evans, Barry Owen, Jocelyn Andrew, Eiddwen Merritt a Carys Morgan.

**Hefyd yn bresennol:**
Y Clerc.

**Ymddiheuriadau:**
Cynghorwr Garym Roberts.

**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Gorffennaf a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion**
Arwydd Derwen Gam wedi ei beintio.

**Mater cynllunio:**
Cyn i'r mater fynd o flaen y pwyllgor gwnaeth y Cynghorydd Barry Owen ddatgan diddordeb ac aeth allan yn ystod y drafodaeth.

Rhif Cyf. A190518
Tir cyfagos i Ty Pwll.
Codi 6 annedd.
Dim gwrthwynebiad.

**Ceredigion Her y Gyllideb:**
Darllenwyd lythyr sy'n gwahodd Cynghorwyr a thrigolion sut maen nhw am i gyllideb y cyngor gael ei wario yn 2020-2021. Mae'r her hyn ar-lein yn unig ond gellir gael cymorth digidol gan lyfrgelloedd y cyngor. Cyfeiriad y ddolen yw:
http://www.ceredigion.gov.uk/Her-y-Gyllideb/

**Gwasanaethau clirio eira:**
Derbyniwyd lythyr yn gwahodd ceisiadau gan ffermwyr, contractwyr amaethyddol a chontractwyr eraill i gyflenwi offer gyda gyrrwr i ddarparu gwasanaeth clirio eira cynorthwyol fel bo'r galw.
Am wybodaeth pellach cysylltwch â caffael@ceredigion.gov.uk

**Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys:**
Danfonwyd gopi o'i Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2018-19 sy'n rhoi crynodeb o'i gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol.

**Pwyllgor Cronfa Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020:**
Gadawodd y Cynghorwyr Carys Morgan a Wyn Evans yr ystafell tra roedd y mater hyn yn cael ei drafod achos eu bod yn datgan diddordeb.
Darllenwyd lythyr yn gofyn am rodd ariannol tuag at yr uchod.
Paswyd yn unfrydol i roi £1000.00 at yr achos.

**Mabwysiadu Ffurflen Cyfrifon:**
Cafodd y ffurflen cyfrifon ei chyflwyno i'r cyngor a'i hargymell.
Cafodd y ffurflen ei arwyddo gan y Cadeirydd.

**Unrhyw Fater Arall:**
Soniodd y Cynghorydd Jocelyn Andrew fod y golau yng nghanol Derwen Gam wedi diffodd a gofynwyd i'r clerc i wneud ymholiadau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30.

Bydd y cyfarfod nesaf ar yr 8fed o Hydref.